Hawdd ei Ddeall



# Cyrsiau Sgiliau Byw'n Annibynnol yng Nghymru

## Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod

Estyn

Medi 2025

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Y Cwricwlwm Sgiliau Byw'n Annibynnol (SBA) mewn Addysg Bellach: Adeiladu cwricwlwm sy'n seiliedig ar sgiliau sy'n canolbwyntio ar y person**




Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Estyn**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.estyn.llyw.cymru

**Ebost:** cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247.

# Cynnwys


**Amdanom ni ..................................................................... 4**

**Beth ydy'r adroddiad yma .................................................... 5**

**Beth rydyn ni wedi ei wneud ................................................ 7**

**Am gyrsiau SBA ............................................................... 9**

**Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod ......................................... 11**

**Sut i gysylltu â ni ............................................................... 45**


# Amdanom ni

Estyn ydyn ni.



Rydyn ni'n edrych ar ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Rydyn ni hefyd yn:




- Adrodd i Senedd Cymru.




- Rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru am addysg a hyfforddiant.



- Rhannu beth rydyn ni'n ei ddarganfod a beth sy'n gweithio'n dda.

# Beth ydy'r adroddiad yma




Mae'r adroddiad yma am gyrsiau S**giliau Byw'n Annibynnol yng Nghymru**.




Rydyn ni'n eu galw'n **gyrsiau SBA** yn fyr.



Mae cyrsiau SBA yn cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Rydyn ni'n galw hyn yn **ADY** yn fyr.



Maen nhw'n cael eu rhedeg mewn colegau ar draws Cymru.



Maen nhw'n helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer gwaith a bywyd oedolion.

Yn 2017 fe wnaethon ni ddysgu:




- Doedd colegau ddim bob amser yn edrych ar sut roedd dysgwyr SBA yn gwneud.




- Roedd colegau'n canolbwyntio mwy ar arholiadau a thystysgrifau.



- Doedd llawer o gyrsiau SBA ddim yn helpu dysgwyr i ddod yn annibynnol neu'n barod ar gyfer gwaith a bywyd.



Fe wnaeth Llywodraeth Cymru newidiadau i wella pethau.



Mae'r adroddiad yma yn edrych ar:

- Beth sydd wedi newid ers 2017.
- Sut mae cyrsiau SBA yn gallu gwella.

# Beth rydyn ni wedi ei wneud



Fe wnaethon ni edrych ar sut beth oedd cyrsiau SBA yng Nghymru.




Fe wnaethon ni ymweld â 10 coleg sy'n cynnig cyrsiau SBA.



Fe wnaethon ni siarad â dysgwyr, athrawon a phobl eraill sy'n ymwneud ag addysg a lleoliadau gwaith.




Fe wnaethon ni ddefnyddio holiaduron Cymraeg a Saesneg. Roedd y rhain hefyd ar gael mewn Hawdd ei Ddeall.



Fe wnaethon ni gyfarfod â dysgwyr yn bersonol i'w helpu i rannu beth roedden nhw'n feddwl.



Fe wnaethon ni edrych ar wybodaeth gan:

- Ein harolygiadau
- Colegau
- ColegauCymru – elusen sy’n hyrwyddo dysgu ar ôl ysgol uwchradd
- Llywodraeth Cymru
- Medr – sefydliad sy’n ariannu ac yn goruchwylio addysg i bobl dros 16 oed



Fe wnaethon ni edrych I weld a oedd gwybodaeth ar wefannau coleg yn hawdd i’w defnyddio ac yn ddefnyddiol.




Rydyn ni eisiau diolch i’r holl golegau a phobl a gymerodd ran yn y gwaith.

# Am gyrsiau SBA



Mae 12 coleg yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau SBA.



Mae'r cyrsiau'n addysgu sgiliau bywyd ymarferol, fel:


- coginio



- glanhau
- bwyta'n iach
- paratoi ar gyfer y gwaith



- rheoli arian
- a hyfforddiant teithio



Mae addysgu wedi ei seilio ar beth mae pob person ei eisiau a'i angen.




Mae 4 math o gyrsiau SBA o'r enw llwybrau.
Mae gan y llwybrau nodau gwahanol i ddysgwyr ag anghenion gwahanol:



- Mae **Llwybrau 1 a 2** ar gyfer dysgwyr sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Mae hyn yn meddwl bod angen llawer o gefnogaeth arnyn nhw.



- Mae **Llwybr 3** ar gyfer gwahanol ddysgwyr ag anghenion gwahanol. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sydd angen cymorth gydag ymddygiad, teimladau ac iechyd meddwl.



- Mae **Llwybr 4** yn darparu lleoliadau gwaith â chymorth.




Dydy pob dysgwr ar gyrsiau SBA ddim yn dod o ysgolion arbennig. Mae rhai dysgwyr yn dechrau cwrs SBA yn 16 oed. Mae dysgwyr o ysgolion arbennig yn dechrau yn 19 oed.

# Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod

## Newidiadau ar ôl 2017




Mae llwybrau SBA wedi cael eu diweddaru.



Fe wnaeth colegau newid sut maen nhw'n addysgu, asesu a chynllunio dysgu.



Maen nhw'n gweithio gyda'i gilydd i rannu arfer da.



Mae angen i lawer o golegau wella sut maen nhw'n edrych ar ansawdd eu cyrsiau SBA.




Ers 2017, mae yna ddeddfau newydd ar gyfer cefnogi dysgwyr gydag ADY.



Mae gan golegau bellach fwy o ddyletswyddau.




Mae colegau yn ei chael hi'n anodd casglu gwybodaeth am beth mae dysgwyr yn ei wneud ar ôl i'w cwrs SBA orffen.

## ILS courses




O fis Medi 2024 ymlaen, mae 12 coleg yng Nghymru yn cynnig cyrsiau SBA.



Roedd ychydig o dan 2 fil o ddysgwyr ar gyrsiau SBA ar draws Cymru.



Roedd gan y rhan fwyaf o golegau rhwng 100 a 300 o ddysgwyr ar eu cyrsiau SBA.



Mae yna lawer o staff sy'n gweithio ar gyrsiau SBA. Mae dros 160 o:

- gynorthwywyr addysgu a staff cymorth
- athrawon
- arweinwyr sy'n rheoli'r cyrsiau.

# Cyrsiau yn y Gymraeg




Dim ond 2 o bob 12 coleg oedd yn cynnig cyrsiau Cymraeg i ddysgwyr SBA.



Mae ychydig o golegau eraill yn gallu ei ddarparu os ydy rhywun yn gofyn ond dydy hyn ddim yn digwydd yn aml.




Yn aml, dim ond cyrsiau Saesneg sydd ar gael i ddysgwyr sy’n siarad Cymraeg.

## Cludiant



Mae ychydig o golegau yn cynnig cyrsiau SBA ar un safle yn unig.



Mae colegau yng Nghymru yn wahanol o ran maint ac yn cwmpasu gwahanol ardaloedd.



Roedd colegau'n dweud bod trafnidiaeth yn broblem i ddysgwyr sydd ddim yn gallu teithio ar eu pennau eu hunain.



Heb drafnidiaeth briodol, dydy rhai dysgwyr ddim yn gallu mynd i'r coleg. Mae hyn yn meddwl bod dysgwyr yn gadael colegau.

## Dysgwyr sy’n gadael



Mae mwy o ddysgwyr sy’n gadael cyrsiau SBA. Mae wedi cynyddu o tua 100 i 150 o ddysgwyr y flwyddyn.




Mae dysgwyr ag anableddau dysgu fel arfer yn aros yn hirach.



Mae dysgwyr ag anghenion eraill yn gadael yn gynt.

# Edrych ar anghenion





Mae dysgwyr yn dechrau cyrsiau SBA ar ôl asesiadau coleg.





Mae colegau yn defnyddio **Cynlluniau Datblygu Unigol** i edrych ar anghenion dysgwyr.



Mae Cynllun Datblygu Unigol yn gynllun personol ar gyfer dysgwyr ADY.



Mae gan tua hanner dysgwyr SBA Gynllun Datblygu Unigol.




Mae gan ychydig o ddysgwyr gynlluniau eraill i gefnogi eu haddysg, eu hiechyd a'u gofal.

# Llwybrau




Mae rhai dysgwyr SBA yn gweithio tuag at gymwysterau.





Mae tua hanner yr holl ddysgwyr SBA ar Lwybr 3.



Mae llai o ddysgwyr ar Lwybr 2.



Does dim llawer o ddysgwyr ar Lwybr 1 na 4.



Yn 2024 i 2025, roedd llawer o ddysgwyr yn astudio SBA yn llawn amser. Roedd y rhan fwyaf o’r gwersi yn Saesneg.

## Llwybr 1 a 2



Mae llwybrau 1 a 2 ar gyfer dysgwyr sydd â'r anghenion mwyaf.



Dim ond rhai colegau sy'n cynnig Llwybr 1.




Mae pob coleg yn cynnig Llwybr 2.



Dydy rhai colegau ddim yn glir am:

- Pa mor hir mae cyrsiau'n para.
- Beth ddylai dysgwyr ei gyflawni.



Mae hyn yn gallu gwneud i gyrsiau deimlo fel gweithgareddau dydd yn lle cyfleoedd dysgu.

## Llwybr 3




Mae’r rhan fwyaf o golegau yng Nghymru yn cynnig Llwybr 3.



Does dim llawer o ddysgwyr ar gyrsiau llwybr 3 yn gweld eu hunain fel ‘**dysgwyr SBA**’.



Felly, mae colegau yng Nghymru yn galw Llwybr 3 wrth enwau gwahanol. Ac yn eu dysgu mewn gwahanol ffyrdd.



Mae sut mae’r cyrsiau’n cael eu haddysgu a’u hasesu yn wahanol ym mhob coleg.

## Llwybr 4



Mae Llwybr 4 yn cynnig lleoliadau gwaith â chymorth.



Mae'r cyrsiau yma yn gallu helpu dysgwyr ag ADY i ddod o hyd i waith â thâl.



Ond dydy pob cwrs llwybr 4 ddim yn gweithio gystal i ddysgwyr oherwydd:




- Mae colegau yn gweithio'n wahanol gyda chyflogwyr ac asiantaethau gwaith.



- Mae gan rai gysylltiadau cryf â chyflogwyr, eraill ddim.



- Dydy rhai dysgwyr ddim yn barod ar gyfer hyfforddiant yn y gwaith ac angen cymorth ychwanegol.



- Mae colegau ac asiantaethau yn wynebu problemau gyda chyllid, teithio a hyfforddiant.




Mae rhai dysgwyr yn cael swyddi, tra bod eraill yn ennill sgiliau gwaith yn bennaf.



Ychydig o staff sydd â hyfforddiant hyfforddwr swyddi.

Dydy cyrsiau Llwybr 4 ddim bob amser yn cynnwys dysgu am:



- Iechyd a lles



- Paratoi ar gyfer gwaith



- Byw'n annibynnol



- Bod yn rhan o'ch cymuned



Mae hyn oherwydd bod asiantaethau gwaith eisiau i'r cyrsiau ganolbwyntio mwy ar gael gwaith â thâl.

## Rheolau ar gyfer sut mae colegau yn cyflwyno cyrsiau SBA



Mae rhai problemau gyda'r rheolau ar gyfer cyrsiau SBA:




- Dydy cyrsiau ddim yn canolbwyntio llawer ar nodau. Dydyn nhw ddim yn dangos yn glir beth ddylai dysgwyr ei gyflawni.



- Dydy dysgu SBA ddim yr un peth â dysgu prif goleg. Dydy sut mae dysgwyr yn gwneud ddim bob amser yn cael ei gofnodi yn y ffordd gywir.



- Dydy rheolau ddim bob amser yn cyd-fynd â chyfreithiau a phethau eraill fel cynlluniau datblygu unigol.

## Cael rheolau clir i gefnogi dysgwyr




Dydy'r Llwybrau ddim yn esbonio anghenion dysgu. Neu sut mae cyrsiau yn helpu dysgwyr ar ôl coleg.



Mae dysgwyr ar yr un cwrs Llwybr yn gallu bod ag anghenion dysgu gwahanol iawn.




Mae colegau yn dilyn gwahanol ffyrdd o gefnogi dysgwyr.




Er enghraifft, mae dysgwr ar Lwybr 1 mewn un coleg yn gallu bod ar Lwybr 2 mewn coleg arall..

## Enwau'r cyrsiau



Dydy'r enw '**Sgiliau Byw'n Annibynnol**' ddim bob amser yn glir.



Dydy e ddim yn dangos beth mae dysgwyr yn ei gyflawni pan fyddan nhw'n gorffen.



Mae rhai colegau yn defnyddio eu henwau cwrs eu hunain.



Mae hyn yn gallu bod yn ddryslyd i ddysgwyr, rhieni ac ysgolion. Mae'n gallu ei gwneud yn anodd i ddod o hyd i gyrsiau.



Mae cyrsiau SBA yn cwmpasu 4 maes dysgu:

- Iechyd a lles
- Paratoi ar gyfer gwaith
- Byw'n annibynnol
- Bod yn rhan o'ch cymuned



Mae'r meysydd yma yn cael eu galw yn 4 piler. Ond mae gwahanol golegau yn eu galw'n bethau gwahanol.



Mae hyn yn ddryslyd, a dydy pawb ddim yn deall beth ydyn nhw.

## Pa mor hir mae cyrsiau'n para




Mae cyrsiau llwybr yn para am **650 awr**.




Mae hwn yn gwrs llawn amser 1 flwyddyn.




Mae rhai cyrsiau yn rhan-amser.




Mae dysgwyr yn gallu ailadrodd cyrsiau neu symud i gwrs arall.



Does gan ychydig o gyrsiau ddim dyddiad gorffen penodol, ac mae'n gallu bod yn ddryslyd.

# Ennill sgiliau bywyd




Dydy cyrsiau SBA ddim bob amser yn gosod nodau personol clir.




Mae'n well meddwl am y sgiliau y dylai dysgwyr eu hennill erbyn diwedd y cwrs.



Mae'n bwysig i ddysgwr ennill mwy o annibyniaeth a sgiliau bywyd.



Mae cynlluniau i'r dyfodol yn dibynnu ar anghenion a sefyllfa pob dysgwr.

# Ateb anghenion dysgu gwahanol



Mae gan ddysgwyr ar gyrsiau SBA anghenion gwahanol i ddysgwyr eraill. Felly, rhaid i addysgu fod yn wahanol hefyd.



Dydy rheolau'r coleg ddim yn esbonio'n glir sut i gynllunio gwersi.



Er enghraifft, dydyn nhw ddim yn dweud:

- sut y dylai staff cymorth helpu,
- beth mae nodau yn feddwl,
- neu sut i roi adborth.




Mae cynlluniau hefyd yn newid ar gyfer pob Llwybr.


# Cynllun Datblygu Unigol




Mae **Cynllun Datblygu Unigol** yn gynllun personol ar gyfer dysgwyr sydd ag ADY. Rydyn ni'n eu galw'n **CDU** yn fyr.



Mewn ysgolion a cholegau, mae'r cynllun yma yn cael ei ddefnyddio yn aml i gefnogi dysgwyr sydd angen help ychwanegol.




Yng Nghymru, mae wedi cymryd lle yr hen gynlluniau dysgu a sgiliau.



Mae CDU yn gweithio orau pan fydd ysgolion, colegau ac awdurdodau yn gweithio gyda'i gilydd â dysgwyr a rhieni.



Mae CDU yn aml yn hwyr, yn anghyflawn, neu ddim yn addas ar gyfer dysgwyr.



Dydy CDU ddim yr un peth ar draws Cymru. Mae hyn yn gallu ei gwneud hi'n anodd i golegau roi'r gefnogaeth gywir i ddysgwyr.




Fe wnaeth ychydig o golegau ddweud fod CDU yn dal i golli gwybodaeth am anghenion dysgwyr.



Mae colegau yn mesur cynnydd dysgwyr mewn gwahanol ffyrdd.




Dydy'r ffyrdd yma ddim bob amser yn cyfateb i CDU.




Dydy nodau dysgwyr ddim bob amser yn gysylltiedig â'u nodau CDU.


## Asesu sgiliau a gosod nodau



Mae’r rhan fwyaf o golegau yn edrych ar sgiliau dysgwyr ar ddechrau’r rhaglen. Mae rhai colegau hefyd yn profi darllen a mathemateg.



Mae dysgwyr fel arfer yn gwybod eu nodau, ond dydy nodau ddim bob amser yn glir.




Mae dysgwyr yn aml yn symud trwy wahanol Lwybrau. I lawer o ddysgwyr, mae hyn yn dda.




Ond mae symud trwy Lwybrau yn bwysig dim ond os ydy e’n helpu’r dysgwr i gyrraedd eu nodau yn y dyfodol.

## Nodau yn y dyfodol



Mae colegau yn helpu dysgwyr i feddwl am eu dyfodol.



Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dweud bod coleg yn eu helpu i gynllunio ar gyfer bywyd ar ôl coleg.



Mae'r coleg yn helpu dysgwyr gyda gyrfaoedd, annibyniaeth, a swyddi.



Ond weithiau mae colegau yn canolbwyntio mwy ar y swydd yn y dyfodol nag ar y sgiliau sydd eu hangen nawr.

**Edrych ar ansawdd**




Mae colegau bellach yn canolbwyntio ar sgiliau, nid arholiadau yn unig.



Mae dulliau o edrych ar ansawdd mewn colegau yn gwella.



Yn y colegau gorau, roedd gwiriadau ansawdd yn dda iawn. Roedden nhw'n gwneud yn siŵr bod anghenion y dysgwr yn cael eu hateb.



Roedd y rhan fwyaf o golegau yn dweud bod angen iddyn nhw wella sut maen nhw'n edrych ar sut mae dysgwyr yn gwneud. Ac ansawdd y cyrsiau.



Dydy colegau ac ysgolion arbennig yn aml ddim yn rhannu’r ffyrdd gorau o weithio.




Does dim llawer o edrych ar sut mae dysgwyr yn gwneud ar ôl iddyn nhw orffen y coleg.

## Hyfforddiant staff



Mae colegau yn rhoi hyfforddiant i staff ac yn rhannu syniadau da.



Mae gan rai colegau gysylltiad cryf rhwng adrannau SBA ac ADY. Maen nhw'n diweddaru cynlluniau dysgu ar gyfer dysgwyr newydd.



Fe ddywedodd llawer o staff eu bod wedi cael hyfforddiant ar gyfer SBA a bod hynny'n ddefnyddiol.




Ond doedd gan lawer o golegau ddim cynllun hyfforddi clir ar gyfer staff SBA.



Ychydig o golegau sy'n rhannu hyfforddiant gyda cholegau eraill.



Doedd y rhan fwyaf o golegau ddim yn edrych ar sut roedd hyfforddiant yn effeithio ar addysgu a dysgu.

## Gweithio gydag ysgolion arbennig



Mae'r rhan fwyaf o golegau yn gweithio'n dda gydag ysgolion arbennig. Maen nhw'n helpu dysgwyr i ymweld a setlo i'r coleg.




Ond dydy hyn ddim yr un peth ar draws Cymru.



Dydy cynlluniau ysgol ddim bob amser yn helpu dysgwyr i symud yn esmwyth o'r ysgol i'r coleg.




Mae llawer o ddysgwyr yn aros yn yr ysgol arbennig nes eu bod yn 19 ac yna'n mynd i'r coleg.




Roedd arweinwyr ysgolion arbennig yn dweud bod digwyddiadau i ddysgwyr sy’n symud o’r ysgol i’r coleg yn dangos cyrsiau dydyn nhw ddim yn gallu ymuno â nhw.



Mae hyn yn gallu drysu dysgwyr am ba gwrs maen nhw’n gallu ei wneud.

## Gwybodaeth ar wefannau



Ym mis Hydref 2024, fe wnaethon ni edrych ar wybodaeth SBA ar wefannau colegau.



Doedd gan yr un coleg dudalennau ar gyfer SBA yn unig. Neu wybodaeth hawdd ei ddeall i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.



Ar y rhan fwyaf o wefannau rydych chi'n gallu chwilio am gyrsiau. Ond mae angen i chi wybod enw'r cwrs.




Ychydig o wefannau coleg sydd yn dweud bod cyrsiau SBA yn rhad ac am ddim. Ond roedd rhai colegau yn rhestru costau ychwanegol, fel ffioedd cofrestru.



Mae rhai colegau wedi rhestru ADY a SBA ar wahân heb ddolen. Mae  hyn yn gallu ei gwneud hi'n anodd i ddysgwyr SBA ddod o hyd i gymorth ADY.

## Cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol



Mae **cyllid CDY** yn arian sydd yn cael ei roi i ddarparwyr addysg a hyfforddiant i helpu dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol.




Mae cyrsiau SBA yn cael cyllid ychwanegol oherwydd bod angen mwy o gefnogaeth ar ddysgwyr.




Mae’r rhan fwyaf o golegau yn defnyddio rhywfaint o gyllid CDY ar gyfer dysgwyr SBA.



Mae nifer y dysgwyr sy’n cael cyllid CDY yn wahanol ym mhob coleg.



Dydy hi ddim yn glir pam mae cyllid CDY yn cael ei ddefnyddio’n wahanol ar draws Cymru.

**Effaith deddfau ADY newydd**




Mae'r gyfraith wedi newid ar gyfer sut mae dysgwyr ADY yn cael eu cefnogi mewn addysg.



Mae hyn wedi gwella gwaith tîm rhwng ysgolion, colegau, a phartneriaid eraill.



Mae symud o'r hen system wedi achosi rhai problemau. Roedd yr hen system yn cael ei galw yn AAA.



Mae rhai dysgwyr yn dal i ddod i'r coleg gyda Chynlluniau Dysgu a Sgiliau. Roedd y rhain yn cael eu defnyddio o dan yr hen system.



Rhaid i rai colegau gefnogi mwy o fathau o ADY nag o'r blaen.



Mae hyn yn gallu rhoi pwysau ar staff ac adnoddau.



Dydy'r cymorth i ddysgwyr ag ADY ddim yr un peth ar draws Cymru.




Rydyn ni angen cynllun cenedlaethol fel bod pawb yn dilyn yr un rheolau. Ac yn cael yr un gefnogaeth.

# Sut i gysylltu â ni



Rydyn ni wedi ceisio gwneud yn siŵr bod yr holl wybodaeth yn y ddogfen yma yn gywir.

Os oes gennych chi gwestiynau neu sylwadau, rydych chi'n gallu cysylltu â:



Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JWE



**Ebost:** cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru



Mae'r dogfennau yma a dogfennau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru.




Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.